

## 1. Presenoldeb a Materion Rhagarweiniol

- 1.1 Yn Bresennol: John Graystone (yn y Gadair), David Elis-Williams, Caroline Davies, Chris Franks, Gayle Hudson, Gerry Jenson, Cathy Clark, June Jeremy, Sonia Reynolds, Dafydd Rhys, Toni Schiavone, Heather Willbourn, Iwan Hywel; a Nick Taylor (hyd at ddiwedd cofnod 4 yn unig). Cafwyd cworwm drwy gydol y cyfarfod.
- 1.2 Ymddiheuriadau: Kaitlin Crisp, Glenys Hughes-Jones, Marjorie Williams.
- 1.3 Presenoldeb: Kathryn Robson (Prif Weithredwr Dros Dro), Cath Hicks (Pennaeth AD a Datblygu'r Gweithlu), Stephen Thomas (Clerc), Steffan Wiliam (cyfieithydd ar y pryd). Nathan Jones (Pennaeth Cyflwyno Cwricwlwm), Sharon Reader (Pennaeth Ansawdd a Gwasanaethau Dysgwyr) a Mark Baines (Pennaeth Cyllid – trwy gyfrwng Skype) yn bresennol ar gyfer cofnodion 5 i 12 yn gynhwysol. Clare Grist (Uwch Swyddog, Dwyieithrwydd) yn bresennol ar gyfer cofnodion 5 i 7.
- 1.4 Dosbarthodd Stephen Thomas gopiâu o 'Lawlyfr Llywodraethiant 2017' i holl aelodau'r Cyngor a oedd yn bresennol a rhoddodd ddisgrifiad cryno o'r dogfennau oedd wedi'u cynnwys yn y llawlyfr.

**Busnes Cyfrinachol y Cyngor ar 24 Gorffennaf 2017 - gweler cofnodion 2 i 4 yn gynhwysol, a gofnodir ar wahân.**

**Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 5 i 12 yn gynhwysol.**

## 5. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 13 Mehefin 2017 a materion yn codi nad oeddent ar yr agenda

Cymeradwywyd y cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd yn Harlech, fel cofnod cywir, yn amodol ar ddileu yng nghofnod 4 *Coleg Sir Benfro* a gosod Cyngor Sir Penfro yn lle hynny. Roedd dau fater yn codi:

**Cofnod 3 - diweddariad ynghylch safle Coleg Harlech, Gorffennaf 2017:** roedd rhan o ddaliad tir y sefydliad yng Nghaeau Astor, Harlech, wedi'i chynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Cyngor Gwynedd a gymeradwywyd yn ddiweddar, gan gynyddu ei gwerth. Hefyd, roedd Cyngor Gwynedd yn dangos rhagor o weithgarwch ar y mater ynghylch safle Coleg Harlech, trwy ei ymgysylltiad â Chris Jones fel ymgynghorydd adfywio ar gyfer y dref. Fodd bynnag, roedd wedi profi'n fwyfwy anodd i reoli cyfathrebiadau â China Consulting (cwmni oedd wedi'i leoli yn Leeds) trwy Harlech Yn Weithredol fel cyfryngwr, ac roedd yn bosibl na fyddai gobaith realistig o gynnydd yn y dyfodol gyda'r cwmni hwnnw o ran ei fwiadau ar gyfer y safle. Cafwyd dau fynegiant o ddiddordeb arall yn y safle – un gan unigolyn a fu'n gysylltiedig â Phrosiect Cambria blaenorol, na chyflawnwyd (a oedd yn dyddio o ddyddiau Coleg Harlech Cymdeithas Addysg y Gweithwyr y Gogledd); ac un arall gan ddatblygwyr Maes Awyr i'r Gofod y DU yn Llanbedr, a oedd yn ei ystyried fel lleoliad posibl at ddibenion eu hyfforddiant. **Yn unol â'r hyn a nodwyd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, roedd yn rhaid cydymffurfio â rheoliadau'r Comisiwn Elusennau: roedd hyn yn golygu, yn fras, lleihau risgiau**

**o ran ein cysylltiadau ag eraill, osgoi pob ffurf ar fasnachu neu hapfasnachu ar ddyfodol y safle, ac ymgysylltu'n unig â chynigwyr a oedd yn barod i ymdrin â ni'n uniongyrchol, neu ein Syrfëwr. Ailadroddodd y Cyngor ei gyfarwyddyd i Grŵp Llywio Harlech yn y telerau hynny.** Ar ôl cwblhau symud allan o Wern Fawr, byddai'r safle yn cael ei farchnata ymhellach – er ei bod yn anochel y byddai'r ffaith y dyfynnwyd cost o dros £1,000,000 ar gyfer gwaith atgyweirio hanfodol ar adeilad y theatr yn dylanwadu ar unrhyw fynegiant o ddiddordeb.

**Cofnod 5 - Cytundeb ffurfiol drafft gyda Wales TUC Cymru:** derbyniwyd cytundeb arfaethedig oddi wrth Wales TUC Cymru yr wythnos flaenorol, a byddai'n cael ei roi gerbron cyfarfod nesaf y Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol.

## **6. Adolygiad Dysgu Oedolion yn y Gymuned Llywodraeth Cymru: Diweddariad**

Siaradodd y Cadeirydd ar ei nodyn ar y mater hwn, gan ychwanegu y cafodd pumed canlyniad posibl i'r sefyllfa ei grybwyll yn ddiweddar, sef opsiwn 'grant cymorth referniw ar gyfer awdurdodau lleol'. Pwysleisiodd bwysigrwydd ymgyrchu'n bwrpasol ar y mater ac o ddefnyddio aelodau'r sefydliad wrth ennyn cefnogaeth, gan fod yn rhaid osgoi'r posibilrwydd y byddai'r sefydliad yn colli allan yn llwyr yn yr amgylchiadau yn dilyn yr Adolygiad. Dywedodd un aelod fod rhywfaint o risg yn bodoli, nid yn unig i ni ein hunain fel sefydliad, ond i ddyfodol addysg i oedolion yn y gymuned yn gyffredinol yng Nghymru.

## **7. Safonau'r Gymraeg**

Siaradodd Clare Grist ar yr eitem hon, gan esbonio bod ein sefydliad wedi'i roi mewn grŵp gyda cholegau addysg bellach a phrifysgolion fel rhan o garfan o gyrff a ddaw o dan safonau penodol a nodwyd ym Mesur y Gymraeg 2011. Roedd yn cynnwys rhwymedigaethau penodol a manwl i ni eu cyflawni fel y disgrifir yn y papurau cysylltiedig gan Gomisiynydd y Gymraeg. Roedd trafodaethau yn parhau gyda staff y Comisiynydd ynghylch yr union ganlyniadau i ni o'r Rheoliadau perthnasol; byddai trafodaethau ac ymgynghori yn dod i ben ar 4 Awst 2017 gyda Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol i ni ym mis Medi 2017, ac wedyn, cyfnod o chwe mis ar gyfer cydymffurfio'n llawn. Roedd rhywfaint o lacio rheolau yn parhau i fod yn bosibl i ni, ond gallai unrhyw ddiffyg cydymffurfio ar ein rhan yn y dyfodol arwain at risgiau i'n henw da, a chanlyniadau o ran cyllid, neu gamau posibl gan yr Ombwdsmon pe byddai cwynion yn cael eu gwneud yn ein herbyn.

Canmolwyd y gwaith a wnaed gan aelodau'r Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr ar y mater hwn, a rhagdybir y byddai rhai colegau AB yn ei chael hi'n anoddach cydymffurfio â'r amodau na fyddwn ni. Er hynny, roedd rhai aelodau'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd derbyn yr agwedd fiwrocraidd a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd, er eu bod yn falch mai'r bwriad oedd rhagori ar ofynion y Comisiynydd lle bo modd. Wrth fynd heibio, nodwyd bod Safon 87 yn ei gwneud hi'n glir mai ein henw cywir fel sefydliad oedd y 6 gair llawn: Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales.

## **8. Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 4 Gorffennaf 2017**

Nodwyd y cofnodion hyn yn ffurfiol. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor ei bod yn hyderus y gallai hwn ddod yn Bwyllgor effeithiol, gan dynnu gwaith dau bwyllgor blaenorol at ei gilydd: roedd cyfuno eu cylchoedd gwaith mewn un ddogfen ymarferol yn brawf o hyn. Tanlinellodd bwysigrwydd y Cyngor ei hun a phwyllgorau eraill yn goruchwyllo a gweithredu ar y Cynllun Datblygu Ansawdd. Hefyd, nodwyd bod ffyrdd o hyd y gallai'r sefydliad fod yn greadigol wrth weithio gyda Chymraeg i

Oedolion/Welsh for Adults o ran ymgymryd ag ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a mentrau tebyg gyda changhennau ac eraill. Roedd y potensial yn fawr o ran ymestyn ein hymgysylltiad mewn technoleg cerddoriaeth hefyd, yng ngolwg rhai llywodraethwyr, er bod posibilrwydd na fyddai'r cwrs Technoleg Cerddoriaeth 2017-18 penodol a drefnwyd ar gyfer Harlech yn digwydd bellach oherwydd bod myfyrwyr wedi tynnu allan o ail flwyddyn y cwrs. Serch hynny, roedd Michelle Kerswell (Rheolwr, Rhanbarth y Gogledd) yn mynd ar drywydd y potensial ar gyfer cyrsiau technoleg cerddoriaeth yn ehangach.

## 9. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 13 Gorffennaf 2017

Nododd y Cyngor y cofnodion hyn yn ffurfiol. Soniodd Chris Franks am ansawdd uchel y cyfraniadau gan y penodiadau cyfetholedig i'r Pwyllgor, a chyfeiriodd at gofnod 6 a'r angen i gael gwerth ased diwygiedig ar gyfer Coleg Harlech – gyda Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies, i ymweld â'r safle ym mis Hydref.

## 10. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ar 13 Gorffennaf: ailymweld

Dychwelwyd at y cofnodion hyn (gweler cofnod 3 uchod) ac fe'u nodir gan y Cyngor. O ystyried y penderfyniadau a wnaed yn gynharach am ddatblygiad sefydliadol o dan Fusnes Cyfrinachol, nid oedd modd cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017-18 a'r dyfarniad cyflog o 1% cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn ar hyn o bryd. **Fodd bynnag, cymeradwyodd y Cyngor y Gwelliannau i'r Weithdrefn Rheolaeth Gyllidebol, yn unol â'r hyn a gytunwyd ac a argymhellwyd gan y Pwyllgor.** O ystyried pwysigrwydd y mater, fodd bynnag, ni fyddai'r Pwyllgor yn defnyddio ei awdurdod newydd dros reolaethau cyllideb i gymeradwyo'r dyfarniad cyflog yn ei gyfarfod nesaf, ond byddai'n dod â'r mater hwnnw'n ôl i'r Cyngor llawn ei ystyried. Nodwyd hefyd gynnwys y cyfrifon rheoli hyd at ddiwedd mis Mai 2017.

**Byddai cyfarfod ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Adnoddau yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos er mwyn bwrw ymlaen â'r materion hyn a gwneud argymhellion diwygiedig i'r Cyngor, lle bo angen. Mewn ymarfer ymgynghorol o-gylch-y-bwrdd a gynhaliwyd gan y Cadeirydd i fesur beth oedd aelodau'r Cyngor yn credu y dylai cyllideb ddiwygiedig 2017-18 anelu ato, y consensws oedd y dylai fod rhwng cyllideb wedi'i mantoli a chyllideb â gwarged o 1%.** Hefyd, ystyriwyd y byddai'n gyfle da i ddarparu opsiynau cyllidebu tair blynedd enghreifftiol i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf. Cafodd aelodau'r Cyngor eu rhybuddio, er gwaethaf cyfansymiau cyllidebol diwygiedig, mwy ceidwadol, y byddai diswyddiadau arfaethedig pellach yn parhau'n debygol.

## 11. Cyfathrebiadau ysgrifenedig ychwanegol ymhlith llywodraethwyr rhwng cyfarfodydd

Roedd Caroline Davies wedi codi'r cwestiwn yn dilyn cyfarfod Cyngor Harlech o ddefnyddioldeb ac ymarferoldeb cynnal trafodaethau rhwng cyfarfodydd llywodraethwyr, drwy e-bost neu ddulliau eraill megis grŵp WhatsApp Messenger neu gynllun SharePoint (Microsoft Office). Cytunwyd y byddai hyn yn bosibl mewn egwyddor – a rhoddwyd cynnig ar hyn am gyfnod byr ychydig o flynyddoedd yn ôl, trwy lwyfan VocalEyes – cyn belled â bod y sianel yn cael ei defnyddio ar gyfer materion penodol yn unig, a'i bod yn eithrio'r sawl nad oeddent yn aelodau'r Cyngor, ac yn osgoi dod yn gawcws neu fecanwaith ar gyfer llobio. **Cytunwyd y byddai protocol manwl ar gyfer ei weithrediad yn cael ei lunio a'i gyflwyno ochr yn ochr â mecanwaith arfaethedig ar ei gyfer yn un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.**

## **12. Dyddiadau arfaethedig y Cyngor a gadarnhawyd ar gyfer y dyddiadur**

O ganlyniad i benderfyniadau a wnaed yn gynharach, roedd yn bosibl y byddai dyddiad cyfarfod ychwanegol yn cael ei ychwanegu, cyn y ddau a gytunwyd eisoes, sef:

1.00 pm, dydd Mercher 27 Medi 2017: Wrecsam

12.30 pm, dydd Iau 30 Tachwedd 2017: Canolfan Dylan Thomas, Abertawe